# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Sara Jones**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom

**Nos Iau 27ain o Tachwedd 2025 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**1.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cynghorydd Catrin Wager.

- **Ymddiheuriadau** – Y Cynghorwyr: Dyfrig Jones, Michael Williams, Rheinallt Puw, Huw Jones, Einir Williams

**2. Datgan diddordeb:** Dim

**3. Materion brys (gyda chaniatâd y Cadeirydd)**

- Y Clerc i wneud ymholiad â Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i gadarnhau a all y Cynghorydd Michael Williams barhau i wasanaethu fel cynghorydd cymunedol ar ôl symud allan o'r ardal.
- Y Cynghorydd Ann Williams – Mae'r lloches fys yn Bont Tŵr/Braichmelyn wedi'i difrodi. Mae'r lloches bellach wedi'i glirio. A yw'r lloches o dan yswiriant? Y Clerc i wneud ymholiadau.

**4. Cadarnhau cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- **Eitem 6.1 –** Y Clerc i gywiro "Y Cae Chwarae, Pont Waen".
- **Eitem 6.2** - Y Clerc i gywiro i "Y Clerc i ofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r gweddill".
- **Tudalen 3** - Y Clerc i gywiro y rhifau ar tudalen 3.
- **Cynllunio –** "Spar Stores": Y Clerc i ychwanegu "Yr Hen Bost" wrth ymyl y disgrifiad.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   - **Clwb Ieuenctid –** Dim cysylltiad wedi bod â Zip World hyd yma.
   - **Eitem 6.2 – Parcio'r Stryd Fawr –** Ymholi â'r Cynghorydd Rheinallt Puw am ddiweddariad ynglŷn â'r llinellau melyn ychwanegol. E-bost gan y Cynghorydd Rheinallt Puw yn gofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad.
   - **Eitem 6.3 – Cynnal Cyfarfod Is-bwyllgor –** Y Clerc i ofyn eto.

6. **Arolwg Un Llais Cymru**
   Dim angen trafod y rhain y mis hwn.

7. **Rhoddion**
   Dim angen trafod y rhain y mis hwn.

8. **Maes Parcio Gerlan -** Llythyr gan Donna Watts, Partneriaeth Ogwen, ynglŷn â'r costau newydd. Mynegodd y Cynghorwyr eu dymuniad i gael cyfarfod penodol i drafod y maes parcio. Cytunwyd i gynnal cyfarfod brys ar 4ydd o Rhagfyr 2025. Y Clerc i anfon e-byst yn syth ar ôl y cyfarfod.

9. **Gohebiaeth:** Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr **"Crynodeb o Ohebiaeth – Tachwedd 2025"**.

   1. **Cae Star –** Gwrthwynebu'r Gorchymyn Parcio Cwmpasog newydd. Y Clerc i anfon y dogfennau llawn at y Cynghorwyr.

   2. **Un Llais Cymru –** Y Clerc i ofyn i Bartneriaeth Ogwen ymateb i'r arolwg.

   3. Cytunodd y Cynghorwyr i barhau â dyfynbris Cormac. Mae'r Clerc wedi anfon e-bost at y cwmni i drefnu'r gwaith ond heb dderbyn ymateb hyd yma. Y Clerc i anfon e-bost pellach.

   4. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol –** 21 Ionawr 2026. Mae Catrin yn barod i gynrychioli'r Cyngor.

10. **Taliadau**
    Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| Talai | Ffurf | Manylion | Swm | |
|---|---|---|---|---|
| CThEF | BACS | TWE Awst, Medi a Hydref | £317.40 | |
| Octopus | DD | Trydan golau Nadolig | £8.82 | |
| EDF | DD | Trydan Llys Dafydd | £49.83 | |
| CThEF | BACS | Cosb taliad hwyr | £99.32 | |
| Scottish Power | BACS | Amrywiol | £388.76 | |

**<u>Taliadau, Tachwedd 2025</u>**

| Talai | Ffurf | Manylion | Swm | |
|---|---|---|---|---|
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Tachwedd 2025 | £423.30 | |
| CThEF | BACS | TWE Tachwedd 2025 | £105.80 | |

Nodwyd bod angen i'r Clerc ymchwilio i'r cynnydd yn y Debyd Uniongyrchol gan Octopus.

**11. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys y canlynol:

- Lloches bws Maes Bleddyn - Rydym wedi cadarnhau cwmni lleol i wneud y gwaith tir, a bydd y Cyngor Cymuned yn prynu'r cysgodfan fys erbyn mis Rhagfyr. Newyddion croesawgar iawn o ystyried y tywydd garw presennol.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn falch o weld y goleuadau Nadolig ar eu traed unwaith eto. Mae'n bleser gallu ariannu hyn a helpu i wneud y Stryd Fawr yn fwy bywiog dros yr adeg arbennig hon.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**15. Unrhyw Mater Brys Arall**

- Dim

**16. Cynllunio**

| Rhif Cais | Lleoliad | Disgrifiad | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **C25/0328/13/RA** | Spar Stores, Stryd Fawr, Bethesda | Cais i ryddhau amod 3 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr. | Amod(au) wedi rhyddhau yn llawn |
| **C25/0536/13/RA** | Former C L Jones Timber and Builders Merchants | Cais i ryddhau amod 4 (Cynllun Gwella Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | C25/0404/13/LL ar gyfer newid defnydd o “Sui Generis” i ddosbarth defnydd B8 “Storio a dosbarthu”. | |
| **C23/0207/13/CR** | Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol | Ar y gweill |
| **C25/0422/13/LL** | 5 & 6 Llys Victoria, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor, LL57 3AN | Gosod ffenestr gromen ar lethr de-orllewin y to | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0449/13/DT** | 2 Stryd Fer, Gerlan, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3SU | Dymchwel estyniad ystafell fwyta presennol a chodi estyniad newydd i’r eiddo presennol | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0531/13/LL** | Annecs, Tanygraig, Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AY | Newid defnydd anecs i lety gwyliau tymor byr (C6) | Ar y gweill |